

|                                   |   |
|-----------------------------------|---|
| <b>Adroddiad i'r:</b>             | <b>Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>  |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>        | <b>13 Mehefin 2019</b>  |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth ac Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>        | <b>Prif Reolwr: Gwasanaethau Cefnogi, Gwasanaethau Cymorth Cymunedol</b>  |
| <b>Teitl:</b>                     | <b>Drafft o Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2018-2019</b>                                     |

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1 Rhaid i Gyfarwyddwr Statudol pob Gwasanaeth Cymdeithasol yng Nghymru lunio adroddiad blynyddol sy'n crynhoi eu safbwynt ar effeithiolrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod a gwelliannau i'w blaenoriaethu.
- 1.2 Mae adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2018-2019 ynghlwm yn Atodiad 1. Diben yr adroddiad yw rhoi darlun teg i'r cyhoedd o wasanaethau yn Sir Ddinbych ac arddangos dealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r heriau a wynebir.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1 I alluogi'r Aelodau i graffu ar yr adroddiad blynyddol drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod Aelodau yn ystyried a yw'r:

- 3.1 adroddiad yn rhoi disgrifiad clir o berfformiad yn 2018-2019; ac a yw'r
- 3.2 adroddiad yn codi unrhyw faterion/pryderon perfformiad sydd angen eu harchwilio ymhellach.

## **4. Manylion yr adroddiad**

- 4.1 At ei gilydd, dengys yr adroddiad bod Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd da ar gyfer plant, oedolion a gofaluwr, a'n bod wedi perfformio'n rhagorol mewn meysydd sy'n bwysig i'n cymunedau. Rydym hefyd yn parhau i drawsnewid ein gwasanaethau cymdeithasol mewn ymateb i'r heriau a gyflwynwyd oherwydd gostyngiadau mewn cyllid yn y sector cyhoeddus ar adeg lle bo mwy o bwysau o ran costau, a gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

#### 4.1.1 Uchafbwyntiau o Gyflawniadau Allweddol sydd yn yr adroddiad

- Parhau i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth ac iaith o ran cyfrifoldebau diogelu corfforaethol. Mae'r Cynllun Diogelu corfforaethol wedi canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant gorfodol ar draws yr Awdurdod Lleol drwy Fodiwl E-Ddysgu
- Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi ehangu'r cyd-weithio gydag asiantaethau partner ac ehangu cylch gwaith y Paneli Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant sydd yn golygu ein bod wedi gwneud mwy o waith ar y cyd gyda'r heddlu.
- Mae Un Pwynt Mynediad (SPoA) wedi parhau i esblygu ac addasu drwy'r flwyddyn ac rydym wedi sefydlu pwynt Gwybodaeth Lles yn Ysbyty Glan Clwyd.
- Rydym wedi sefydlu 2 Dîm Adnoddau Cymunedol ac mae 2 arall ar y ffordd yn 2019/2020. Rydym ar ein ffordd i gyflawni'n cyd weledigaeth, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, o ddarparu gwasanaethau cymunedol ymatebol, hyblyg a chynhwysfawr.
- Mae'r prosiect Ailasesu wedi cael canlyniadau cadarnhaol o ran sicrhau bod pob dinesydd sy'n derbyn pecyn gofal a chymorth yn cael eu hadolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ac yn cyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddyn nhw.
- Mae'n fforymau cyfoedion, ein hymarfer myfyriol, ein gweithdai a'n taliadau uniongyrchol yn helpu i ddatgloi'r creadigrwydd yn y staff. Mae'n dull yn seiliedig ar asedau ar draws ein gwasanaeth oedolion yn ei gyfanrwydd wedi arwain at ostyngiad yn y nifer o ddinasyddion sydd angen gofal a chymorth a ariennir gan y cyngor.
- Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Profiad Byw Atal Digartrefedd, lle mae dinasyddion wedi, ac yn parhau i gael cynnig hyfforddiant i gynyddu eu gallu ac i gymryd perchnogaeth lwyr o'r grŵp a chael llais clir o ran prosesau cynllunio i atal digartrefedd yn Sir Ddinbych.
- Mae gennym bellach Lywiwr Digartrefedd wedi'i leoli yng Nghanolfan Byd Gwaith Y Rhyl sy'n cefnogi dinasyddion pan fyddant yn ymgysylltu gyda'r Ganolfan Waith.
- Rydym wedi datblygu cynnig landlordiaid i gynyddu a gwella llety dros dro ar gyfer yr aelwydydd hynny sy'n profi digartrefedd.
- Wedi sicrhau cyllid gan y Gronfa Gofal Integredig, rydym wedi cynnal hyfforddiant Dementia, a gynigwyd hefyd i bartneriaid, yn fewnol ac allanol i'r Cyngor.
- Mae Sir Ddinbych yn Gweithio wedi ymgysylltu gyda Gwasanaeth Gwybodaeth I Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (GOGDdC) a'r Prosiect Cefnogi Gofalwyr ac yn cefnogi'r gofalwyr hynny sydd eisiau dod o hyd i waith.
- Mae llywiwr lles anabledd wedi ei gyflogi gan ein Gwasanaethau Plant er mwyn cefnogi rhieni ofalwyr.
- Mae Gwasanaethau Plant wedi rhoi amrediad o ddogfennaeth a gytunwyd yn rhanbarthol ar waith yn llwyddiannus, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.
- Rydym wedi integreiddio Teuluoedd Yn Gyntaf a Dechrau'n Deg i un gwasanaeth o dan dîm rheoli newydd, gan barhau i dderbyn adborth cadarnhaol.
- Mae'r Tîm Plant ag Anableddau wedi trawsnewid i ymgorffori un uned i gefnogi plant gydag anableddau a salwch sy'n cyfyngu ar fywyd ar draws yr amrediad o angen o Ymyrraeth Gynnar i ymyriadau statudol aciwt. Mae'r ymagwedd hon yn cydnabod y bydd anghenion ac amgylchiadau'r plant a'r gofalwyr yn newid dros gyfnod plentyndod, a bydd dyheadau'r plant a'r rhieni yn cael cysondeb cymorth gan un gwasanaeth.

- Wedi cryfhau ein cysylltiadau gyda theuluoedd sy'n dewis addysgu eu plant gartref, datblygu gyda'r Gwasanaeth Llyfrgell i asesu adnoddau, defnyddio'r Gwasanaeth Hamdden i ddarparu cyfleoedd i deuluoedd ac i gefnogi disgyblion yn ôl i mewn i'r ysgol neu i bobl ifanc rhwng 14 ac 19 oed gael mynediad at gyflogaeth neu hyfforddiant, os yw hynny'n briodol.

4.2 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi sawl maes lle'r ydym yn ceisio gwella perfformiad ymhellach a'r cynlluniau sydd gennym ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn.

#### 4.2.1 **Uchafbwyntiau o Feysydd Gwaith Pellach yn yr adroddiad**

- Cynyddu capasiti (yn fewnol ac yn y trydydd sector) er mwyn i'r gwasanaethau atal gefnogi mwy o ofalwyr sy'n dod ymlaen i gael cymorth o ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect Cefnogi Gofalwyr yn Sir Ddinbych.
- Gweithredu a sefydlu argymhellion a chamau gweithredu o fenter Mesur y Mynydd Llywodraeth Cymru.
- Gweithio tuag at Gyngor Sir Ddinbych sy'n Gyfeillgar i Dementia.
- Gorffen ein hadolygiad o ran rhoi'r Cyllidebau Cymorth ar waith, datblygu prosesau a chanllawiau o wersi a ddysgwyd; sefydlu dull cymryd risg cadarnhaol; a gweithio'n agos gyda'n partneriaid a darparwyr i sicrhau bod gan ein dinasyddion ddewis a rheolaeth lawn dros eu hanghenion gofal a chymorth.
- Bydd Gwasanaethau Plant yn parhau i roi ar waith yr arferion a'r prosesau diwygiedig yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Ar hyn o bryd mae Gwasanaethau Plant yn adolygu amrywiaeth o swyddogaethau gweithredol er mwyn sicrhau gwerth am arian a systemau dysgwyr.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu ein Timau Adnoddau Cymunedol, gan ddysgu gan y timau sydd wedi eu sefydlu a chyflwyno Timau newydd yn Ninbych a Phrestatyn. Dylai datblygu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol mwy di-dor o fewn Sir Ddinbych fod o gymorth i ni leihau'r nifer o drosglwyddiadau gofal o'r ysbyty sy'n cael eu hoedi.
- O fewn ein gwasanaethau iechyd meddwl byddwn yn datblygu rhaglen ddysgu gydag ymagwedd adfer a lles lle bydd sesiynau yn cael eu cynnal mewn lleoliadau priodol a hygyrch yn y gymuned fel ffordd o ddarparu gwasanaethau lefel isel yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae Partneriaeth Ddysgu Sir Ddinbych wedi ei sefydlu i gefnogi'r datblygiad hwn ac ar hyn o bryd rydym yn archwilio meysydd arferion da drwy Rwydwaith Dysgu er Lles Gogledd Cymru.
- Mae'r Grŵp Penaethiaid Gwasanaeth yn datblygu Canllaw Arferion a Pholisïau Aml Asiantaeth, er mwyn cyd-fynd â'r Canllawiau Cenedlaethol a chefnogi eu defnydd ar draws Gogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys protocol rhannu gwybodaeth, cytuno ar wahaniaeth penodol rhwng plant sy'n cael eu nodi fel bod ar goll a phlentyn yn cael ei nodi fel bod yn absennol, ac eglurder ar ddiben Cyfweliadau Dychwelyd Adref ac ymateb aml asiantaethol priodol.
- Adolygu a gwella mynediad i Blant Dan Ofal a Phobl Sy'n Gadael Gofal yn Sir Ddinbych gyda'r cyfle i gymryd rhan mewn lleoliad gwaith / cynllun hyfforddeiaeth awdurdod lleol.
- Datblygu lleoliad preswyl 2 / 3 diwrnod i gyfanswm o 40 o Blant Dan Ofal fydd yn cynnwys Sgiliau Byw, e.e. coginio, cyllidebu, cyflogaeth, lles meddyliol a rhyngweithio / sgiliau cymdeithasol.
- Gweithredu unrhyw ddysgu ac argymhellion gan archwiliadau diweddar Arolygiaeth Gofal Cymru.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud yn benodol â'n cyfraniad at gyflawni'r ddwy flaenoriaeth gorfforaethol ganlynol:
- Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion; a
  - Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid.

## **6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1 Nid yw cynhyrchu a chyhoeddi'r adroddiad ei hun yn costio unrhyw beth (ac eithrio amser swyddogion), ac nid yw'n effeithio ar wasanaethau eraill. Bydd y cynlluniau a'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer y dyfodol i'r gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr adroddiad yn cael eu cyflawni o fewn y cyllidebau presennol. Fodd bynnag, mae rhai o'r themâu a gwmpesir yn yr adroddiad e.e. cefnogi annibyniaeth a gwella lles, yn rhaglenni corfforaethol yn hytrach na chyfrifoldeb y gwasanaethau cymdeithasol yn unig. Ar gyfer y Cyngor cyfan, bydd hyn yn golygu sicrhau bod ein holl wasanaethau, er enghraifft gwasanaethau tai, priffyrdd, cynllunio, gwasanaethau amgylcheddol a hamdden, wedi eu cynllunio i hyrwyddo annibyniaeth.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

- 7.1 Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad blynyddol ei hunan gan ei fod yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad yn ystod 2018-2019, ac nid yw cyhoeddi'r adroddiad yn cael unrhyw effaith bosibl ar genedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, bydd Asesiadau Effaith ar Les yn cael eu cynnal o safbwynt unrhyw gynlluniau neu ddatblygiadau gwasanaethau sydd wedi eu nodi o fewn yr adroddiad blynyddol hwn, os a phan fydd angen.

## **8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

- 8.1 Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalmwyr ynglŷn â'n gwasanaethau yn ffurfio rhan o'n system sicrwydd ansawdd presennol ac o'r herwydd, wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad yr adroddiad hwn.
- 8.2 Fel yr arfer, bydd yr adroddiad drafft yn cael ei ddsbarthu i bartneriaid (e.e. iechyd, 3ydd sector) ar gyfer sylwadau, cyn ei gyhoeddi.
- 8.3 Mae'r adroddiad drafft wedi ei ystyried gan swyddogion o fewn y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a'r Gwasanaethau Addysg a Phlant.
- 8.4 Bydd yr adroddiad drafft yn cael ei roi ar Borthol Sgwrs y Sir am ymgynghoriad cyhoeddus erbyn 17 Mehefin 2019 am 2 wythnos.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Mae'n rhaid i oblygiadau cost unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn yr adroddiad blynyddol gael eu hystyried yng nghyd-destun sefyllfa gyllidebol ehangach y cyngor a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

## **10. Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae cofrestr risg manwl ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth Cymunedol ac Addysg a Gwasanaethau Plant. Gan fod hwn yn adroddiad am Wasanaethau Cymdeithasol yn Sir Ddinbych, mae unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r materion a gwmpesir gan yr adroddiad hwn (ac unrhyw gamau i liniaru a'u rheoli) yn cael eu dal yn y cofrestri risg gwasanaeth.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Mae Canllawiau Statudol (gan gynnwys y gofyniad i gyhoeddi adroddiad blynyddol) yn cael eu cyhoeddi o fewn y Cod Ymarfer ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

11.2 Mae erthygl 7.4.2 (b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau Archwilio o ran adolygu perfformiad y Cyngor mewn perthynas ag amcanion polisi.

### **Swyddog Cyswllt:**

Prif Reolwr: Gwasanaethau Cefnogi

Ffôn: 01824 706368